**Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll**
**a gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen**
**Nos Fawrth, 13eg o Fehefin am 7:30 y.h**

**Yn Bresennol**
Cynghorwyr – Lisbeth James (LJ), Sianelen Pleming (SP) [ar ôl eitem 4], John Owen (JO), Gwilym Williams (GW), Griffith Jones (GJ), Emlyn Hughes (EH), a'r Cyng. Aled Jones (AJ).

Penodwyd Lisbeth James yn Gadeirydd Gweithredol Tros Dro ar gyfer y cyfarfod hwn.

1. **Ymddiheuriadau –** Olwen Roberts a William Jones.

2. **Datgan Diddordeb –** Dim

3. **Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd**

3.1 **Cadeirydd 2017/18 –** Cynigiwyd Lisbeth James gan John Owen ac eiliodd Gwilym Williams. Roedd yr Aelodau oll yn cytuno ac felly penodwyd Lisbeth James.

3.2 **Is – Gadeirydd 2017/18 –** Cynigwyd Griff Jones gan Gwilym Williams ac eiliodd John Owen. Roedd yr Aelodau oll yn cytuno ac felly penodwyd Lisbeth James.

4. **Datganiadau Derbyn Swydd –** Cwblhawyd y datganiadau derbyn swydd i gyd heblaw un. *Y Clerc i ddilyn i fyny ar gyfer y cyfarfod nesaf*.

5. **Hysbysiadau y Cadeirydd –** Cydymdeilodd y Cadeirydd a phawb a oedd yn bresennol gyda'r Cyng. Olwen Williams a'r teulu ar y brofedigaeth o golli ei mam yng nghyfraith. *Y Clerc i yrru cerdyn o gydymdeimlad.*

6. **Cofnodion**

6.1 Cynigodd John Owen fod cofnodion y 14eg o Fawrth, 2017 yn gywir. Eiliodd Griff Jones ac fe'u mabwysiadwyd.

6.2 Materion yn codi –

6.2.1 **Dŵr yr Eifl –***Y Clerc i holi Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy y Cyngor Sir am y cynnydd* .

6.2.2 **Mynwent Pistyll –** Mae Gwilym Williams a Carys Williams wedi cwblhau archwiliad manwl o'r rhan o fynwent Pistyll sydd ym mherchnogaeth Cyngor Cymuned Pistyll. Ar yr adroddiad maent yn cadarnhau nad oes unrhyw garreg fedd yn berygl. Nodi'r fod dwy garreg fedd yn fflat, wedi llithro, ond nad ydynt yn berygl.

Draft

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

Yn ogystal maent wedi cadarnhau fod y wal sydd o amgylch rhan Cyngor Cymuned Pistyll o fynwent Pistyll yn 80 medr o hyd a 1.5 medr o uchter h.y. 120 medr sgwar. Penderfynwyd derbyn a chymeradwyo'r adroddiad. Diolchodd y Cadeirydd i Gwilym Williams a Carys Williams am eu gwaith ac ategodd yr Aelodau'n unfrydol. *Y Clerc i roi'r eitem hon ar raglen cyfarfod yr 1eg o Orffennaf.*

6.2.3 **Palmant gyferbyn a ffens Cae Chwarae Llithfaen -** Cynhaliwyd y cyfarfod aml-asiantaethol a drefnwyd gan y Clerc. Mae Iwan ap Trefor o'r Cyngor Sir am yrru cofnod i'r Clerc. *Y Clerc i adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.*

6.2.4 **Gweithgaredd yn y Nant -** *Y Clerc i ddiweddaru'r Aelodau pan ddaw ymateb gan y trefnwyr.*

7. **Canolfan Llithfaen** –

7.1 **Asesiad Risg -** I ddiwallu dyletswydd ymddiriedol y Cyngor, yn unol â'r Rheolau Ariannol, rhoddwyd ystyriaeth i Asesiad Risg ddechreuol o ran symud ymlaen a'r brydles. *Materion yn codi:*

7.1.1 Nododd y Clerc, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol a Swyddog Priodol, fod yn rhaid iddo argymell fod y Cyngor yn sicrhau cyngor cyfreithiol annibynnol ffurfiol cyn ymrwymo i wariant ar y brydles. Byddai hynny yn diwallu dyletswydd ymddiriedol y Cyngor. Mae Lowri Cadwaladr Roberts, Uwch Syrfewr Stadau yng Nghyngor Gwynedd hefyd wedi cofnodi fel a ganlyn: 'Byddwn yn awgrymu fod y Cyngor Cymuned a'r Pwyllgor yn ceisio barn gyfreithiol annibynnol ar y prydlesi'. Y *Clerc i gysylltu gyda Un Llais Cymru i holi os yr ydynt yn yn darparu cyngor cyfreithiol annibynnol sydd yn angenrheidiol i Gynghorau Cymuned wrth i asedau cymunedol gael eu trosglwyddo iddynt. Gofynwyd iddo adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.*
Nododd SP fod cwestiwn wedi codi ynglyn â pherchnogaeth y tir ple mae'r cysgodfan bws ym maes parcio'r Ganolfan. *Y Clerc i fwrw golwg tros y brydles ac i ymgynghori gyda'r Cyngor Sir am y mater.*

7.1.2 Cadarnhawyd fod Pwyllgor y Ganolfan wedi sicrhau adroddiad ar gyflwr archwiliedig y Ganolfan. *Ysgrifenydd y Ganolfan i ddarparu copi o'r adroddiad ar gyfer y Cyngor Cymuned.*

7.1.3 Gweler y cyfeiriad at achos busnes yn eitem 7 yng nghofnodion y 13 Rhagfyr, 2016. Argymhellodd y Clerc i'r Cyngor ddarparu achos busnes ysgrifenedig cyn ymrwymo i wariant ar y brydles. Ar ôl trafodaeth cynigiodd SP mai ar ôl i'r brydles fod mewn lle a phan fydd Pwyllgor y Ganolfan yn darparu ceisiadau am gyllid i atgyweirio'r adeilad y dylai Cynllun Busnes gael ei ddarparu. Eiliodd GJ a mabwysiadwyd y cynnig gan y Cyngor.

7.2 **Amodau Prydles Newydd –** Ystyriwyd yr amodau arfaethedig. Tynodd JO sylw at y cymal sy'n nodi 'Cyfrifoldeb y Tenant fydd unrhyw drethi a asesir ar yr eiddo' a holi os y byddai angen talu treth ar y safle. Bydd y Cyngor yn trafod y mater yma ymhellach yn ystod eu cyfarfod ar yr 11eg o Orffennaf.

Drafft

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

7.3 **Costau Cyfreithiol arfaethedig y Cyngor Sir -** Bydd y Cyngor yn trafod y mater yma ymhellach yn ystod eu cyfarfod ar yr 11eg o Orffennaf.

8. **Gwefan a pholisiau cysylltiol y Cyngor** –
8.1 Adroddwyd y bydd y gwellainnau mewn lle cyn gynted ac y bydd amser yn caniatau.
8.2 Adolygwyd Polisi Iaith drafft ac opsiynau o ran rhai cymalau. Rhoddwyd disgresiwn i'r Clerc gyflwyno unrhyw fater pwysig a amlyga'i hun wrth iddo ddarparu'r fersiwn terynol yn y cyfarfod nesaf. Cynigiodd SP i'r Polisi Iaith, heblaw y cymalau sydd angen ystyriaeth, gael ei fabwysiadu. Eiliodd GW. Cytyunwyd ar hyn ac fe'i fabwysiadwyd ar y sail yma.

9. **Ceisiadau Cynllunio** – Cyfeirnod: C17/0416/43/LL – Addasiadau i uned wyliau yn cynnwys gosod 3 nen olau cadwriaethol, ffenestr talcen newydd ac addasiadau mewnol. Lleoliad: Natural Retreats, Pistyll Farm, Pistyll, Pwllheli, LL53 6LR. Hysbyswyd y Cyngor Sir o fewn yr amserlen arfaethedig nad oes gwrthwynebiad i'r cais.

10. **Materion Lleol eraill a godwyd o flaen llaw -**
10.1 Llidiart y Llwybr Cyhoeddus ger Capel Isa Llithfaen - Nodwyd nad yw'r llidiart wrth y Festri ar y llwybr cyhoeddus ger Capel Isaf Llithfaen yno mwyach. *Y Clerc i hysbysu Swyddog Llwybrau'r Cyngor.*
10.2 Hysbysfwrdd Siop Llithfaen - Cynigiodd EH fod y Cyngor yn ffurfioli eu penderfyniad i roi'r hysbysfwrdd sydd bellach o'r tu allan i'r Siop yn Llithfaen i Fenter yr Eifl sy'n berchen yr adeilad. Eiliodd GW a mabwysiadwyd y cynnig. *SP i gysylltu gyda Menter yr Eifl.*
10.3Adroddwyd fod gohebiaeth i law gan Sara Williams, Hafan, Llithfaen yn mynegi ei diddordeb mewn ymuno a'r Cyngor. Cynigiodd SP iddi gael ei chyfethol fel Aelod ar y Cyngor yn cynrychioli Ward Llithfaen. Eiliodd GW a chytunodd y gweddill o'r Aelodau. *Y Clerc i hysbysu Sara Williams a'i gwahodd i gyfarfod yr 11eg o Orffennaf.*

11. **Gohebiaeth –**
11.1 Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE - Cynigiodd EH fod SP yn cynrychioli y Cyngor Cymuned ar y cydbwyllgor hwn. Eiliwyd y cynnig gan GJ ac fe'i mabwydiadwyd.
11.2 Hyfforddiant ar y côd ymddygiad - Nodwyd fod Gwasanaeth Cyfreithiol y Cyngor Sir yn ystyried cynnig hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad ar gyfer Cadeiryddion a Chlercod i'w gynnal ar ôl yr haf. *Y Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir fod gan y Cadeirydd ac yntau ddiddordeb mewn egwyddor.*
11.3 Cyfarfod Pwyllgor Ardal Un Llais - Cyhoeddwyd fod Pwyllgor Ardal Arfon yn cynnal ei gyfarfod blynyddol ar y 14 o Fehefin.
11.4 Ymgynghoriad Awdurdod Tân - *Gofynwyd i'r Clerc ddarparu ymateb drafft i'w ystyried yng nghyfarfod Gorffennaf.*
11.5 Cais Eluned Morgan, Aelod Rhanbarthol Llywodraeth Cymru i arddangos manylion cyswllt – Daeth yn hysbys nad oedd y cais yn berhnasol i'r Cyngor.

Draft

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

Cyngor Cymuned Pistyll

Draft

11.6 Tynwyd sylw'r Cyngor at rifyn diweddaraf 'Llais Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru'.

11.7 Cyflwynyd pecyn o ohebiaeth amrywiol pellach i'r Aelodau er gwybodaeth. Ni chafwyd sylwadau.

12. **Cyllid**

12.1 **Ffurflen Flynyddol: Datganiad Llywodraethu a Chyfrifyddu 2016-17-** Cyflwynwyd datganiadau cyfrifo 2016/17. Cynigiodd GW eu bod yn cael eu cymeradwyo a'u mabwysiadu. Eiliodd GJ a chytunodd y gweddill o'r Aelodau. Cynigiodd GW fod y Cyngor yn cymeradwyo yr ymatebion ar Ffurflen Flynyddol 2016/17. Eiliodd JO a chytunodd yr holl aelodau.

12.2 **Adroddiad Archwilwyr Allannol ar gyfer 2015 – 16 –** Gan fod yr Archwilwyr Allannol bellach wedi rhoi eu barn cyflwynwyd Ffurflen Flynyddol 2015 – 16 ynghyd â'r 'Adroddiad Materion yn Codi' i'r Cyngor. Nodwyd y dylai'r Cyngor ddarparu Cynllun Gweithredu i nodi sut y bydd y materion sy'n codi yn cael eu trin. Cynigiodd EH fod yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gymeradwyo a'i dderbyn a bod Cynllun Gweithredu yn cael ei ddarparu. Eiliodd GW a chytunodd yr holl Aelodau. *Y Clerc i ddarparu Cynllun Gweithredu.*

Adroddwyd fod y 'Rhybudd o Ganlyniad Archwiliad' yn cael ei arddangos yn yr hysbysfwrdd o'r tu allan i Siop Llithfaen rhwng yr 8fed a'r 22ain o Fehefin.

12.3 **Trafodion ar y gyfriflen banc ddiweddaraf**:

Derbyniadau: £4250.00 – 50% o'r praeseb am 2017/18

| | |
|---|---|
| Taliadau: E Griffith (Cyflog Clerc 4/17) | £160.00 |
| √ (Costau/treuliau 4/17) | £25.00 |
| Aelwyd Gwrtheyrn (Rhodd) | £300.00 |
| J D Roberts (Archwiliwr Mewnol) | £134.00 |
| Eurwyn Griffith (Cyflog Clerc 5/17) | £185.00 |
| Aon UK Limited (Adnewyddu Yswiriant) | £526.19 |

Balans cyfrif cyfredol: £5034.12

Balans Cyfrif cadw: £2143.75

12.4 **Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod -**

| | | |
|---|---|---|
| E Griffith (Cyflog Clerc 6/17) | £160.00 | |
| √ (Costau/treuliau 6/17) | £25.00 | £185.00 |
| Osian Williams (Torri gwair mynwent Pistyll) | | £260.00 |
| Canolfan Cymdeithasol Llithfaen (16/17) | | £600.00 |

**Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 11 o Gorffennaf am 7:30 y.h.**

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347